**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 25 Hydref 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | P K Jones |
| L R Jones | E T Kirchner | C Richards |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jon Franklin | Arweinydd Tîm - Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

---

**19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**20 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021 fel cofnod cywir yn amodol ar ddiwygio Cofnod 17 - Tegwch Iechyd Gwyrdd (Tudalen 4, paragraff 5) i nodi "amddifadedd".

**21 Cydlynydd Ardal Leol.**

Rhoddodd Jon Franklin ac Amy Hawkins gyflwyniad trosolwg yn amlinellu cefndir gwaith y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALl).

Fe wnaethant fanylu ar rôl a chyfrifoldebau'r CALl sy'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Mae CALl bellach yn cwmpasu holl ardal Dinas a Sir Abertawe;
- mae'r rôl yn un ataliol sy'n seiliedig ar gryfder i raddau helaeth;

- Y nod yw cefnogi ac arwain pobl i aros yn hyderus a gwydn, eu galluogi i ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain i reoli heriau a lleihau neu oedi eu hangen am wasanaethau ffurfiol.
- Canolbwyntio ar helpu pobl i helpu eu hunain; a'i gilydd.
- Creu cysylltiadau o fewn cymunedau i gefnogi pobl leol;
- Mae staff wedi'u lleoli yn y gymuned, ac yn aml maent yn defnyddio adeiladau/ystafelloedd i helpu i sefydlu eu hunain a datblygu sylfaen a safle gweledol amlwg yn eu cymuned;
- Mae CALl yn rhan o rwydwaith cenedlaethol; www.lacnetwork.org
- Maent yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Trechu Tlodi i helpu a chynorthwyo'r cyhoedd;
- Maent yn gweithio gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr yn arbennig ar faterion sy'n ymwneud â thlodi bwyd drwy gysylltiadau rhagorol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig;
- Cyfranogiad Prifysgol Abertawe ac adolygiad a gwerthusiad academaidd o'r rôl ac ehangu'r ddarpariaeth CALl, yr adroddir ar ei ganlyniadau yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd yr Aelodau amryw gwestiynau a gwnaethant sylwadau am y gwaith rhagorol a wnaed gan y CALl yn y gorffennol a'u cefnogi'n llawn gan amlinellu y bydd eu rolau'n mynd yn anoddach wrth symud ymlaen oherwydd pwysau allanol, yr ymatebodd y Swyddogion iddynt yn unol â hynny.

## 22 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2021-2022.

Amlinellodd y byddai'r adroddiad ar Bolisi Tyfu Bwyd Cymunedol yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys diwygiedig yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.14 pm

**Cadeirydd**